CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

Cofnodion Cyfarfod 7fed Chwefror 2023

Presennol: Lynda Massarelli, Meredydd Williams, Eurwyn Jones, Eirian Hoyle

1. Ymddiheuriadau: Tomos Parry-Ephraim, Gareth Jones, Elfed Roberts

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf. EH, MW

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.432 Gellilydan (Bron Gelli): Cwyn wedi ei dderbyn yn cyfeirio at y cyrbau sydd wedi eu gosod yno, maen't yn biig yn hytrach na bod yn grwn, clerc i gysylltu ac ADRA.

3.433 Cae Chwarae Maentwrog: LM am wneud ymholiadau os oes cyllid ar gael, (cadw mlaen tan mis Ebrill).

3.434 Gors Fach – Pryderon Diolgelwch – cadw mlaen.

3.435 Cae Chwarae Gellilydan – cyfarfod safle i'w drefnu gyda Adrian Williams (Cyngor Gwynedd).

3.436 Mynwent Dwyryd – Gwella'r safle parcio - Cyfarfod safle wedi ei drefnu at yr 18fed o mis Chwefror. Mae angen gwneud cynllun o'r gwaith sydd am ei wneud yno.

3.437 Gellilydan – plant yn defnyddio 'scooters' ar y ffordd – Gareth Jones i godi y mater yng nhyfarfod nesaf Llywodraethwyr yr Ysgol (cadw mlaen). Yn ychwanegol mae Lynda Massarelli am godi y mater gyda PCSO Emma Jones.

3.438 Tir ger Gors Fach – gwaith atgyweirio angen ei wneud i'r ffens, Elfed Roberts am gysylltu a Chyngor Gwynedd. (cadw mlaen).

3.439 Archwiliad Mewnol - clerc wedi ymateb.

3.440 Archwiliad Allianz: pris wedi ei dderbyn gan GL Jones. Disgwyl canlyniad cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd ar yr 18fed o Chwefror.

3.441 National Grid: grantiau ar gael, trafod cyfarfod nesaf, cadw mlaen.

3.442 Parcio Gellilydan: Ceir yn parcio ar linellau dwbl – Clerc i ail-gysylltu a gofyn iddynt fonitro'r sefyllfa.

3.443 Bryn Arms, Gellilydan: Clerc i gysylltu a'r Parc i gael cadarnhad ar y pwyntiau canlynol:

- Cadarnhad bod asesiad ymgylcheddol wedi ei wneud yno.
- Cyfoeth Naturiol Cymru – unrhyw ddatblygiad gyda'r llifogydd sydd yn digwydd yno.
- Posib cael copi o'r cynllun sydd yn manylu ar y linell datblygu a lleoliad y carafanau.

CamScanner

3.444 Cae Chwarae Gellilydan: Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd i gael bin newydd yno.

4. Materion i'w trafod ar y pryd.

4.178 Mynwent Dwyryd - Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Clerc i gael cyfarfod ar yr 15 fed o Chwefror.

4.179 Prisiau Claddu: Os yw'r person wedi ei fagu yn yr ardal ac wedi symud allan i weithio, maen't yn cael eu prishio fel person lleol. Cynnig MW, eilio LM, EH. EJ.

4.180 Tendr torri gwair y Fynwent: Hysbyseb i'w roi yn y Llafar Bro ac ar Hysbyfwrdd Gellilydan a Maentwrog, dyddiad cau 18 o Fawrth. Eirian Hoyle am drefnu.

4.181 Clerc i gysylltu a'r sawl sydd yn gwneud gwaith i'r Cyngor i gael copi diweddaraf o'u Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

4.182 Clerc i gysylltu a'r Parc i ofyn os oes caniatad wedi ei roi i'r ffenses uchel sydd wedi eu codi yn Llwyn Einion.

5. Ariannol

5.114 Gweler yr atodiad sydd wedi ei gadarnhau gan aelodau y cyngor.

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.115 Martin Kerr: £440.00

5.116 CFFI – cyfraniad o £75.00

5.117 Gwe Cambrian - £119.99

5.118 Cytunwyd i godi y Praesept 5%.

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r cais canlynol.

6.55 NP5/73/287P Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd – cadw gwaith trin carthion yn rhannol / cwblhau'r rhannol ynghyd a gwaith cysylltiedig.

7. Gohebiaeth

219 Mynwent Utica – Trafod cyfarfod mis Mawrth.

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Dim newyddion

9. Dyddiad cyfarfod nesaf

21 Mawrth 2023, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog am 7 o'r gloch.

CamScanner